Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llwybr Panorama, Afon Mawddach

**ANODD/LLAFURUS**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 6.5km (4 milltir)
- Hyd: 3 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru




V-20230913/1526

1



O’r maes parcio, cerddwch i lawr yr allt i gyfeiriad Abermaw a trowch i’r chwith gan ddilyn yr arwyddbost ‘Llwybr Panorama’. Ewch trwy giât a dilynwch y llwybr glaswelltog.

2




Wrth ddilyn yr hen ffordd, fe ddowch at goedlan. Ewch trwy’r giât o’ch blaen ac yna trwy giât arall ar eich dde gan ddilyn yr arwyddbost ‘Llwybr Panorama’. Bydd y llwybr yn mynd â chi at olygfan Llwybr Panorama. Byddwch yn ailymuno â’r hen ffordd ar ôl cyrraedd yr olygfan. Cadwch i’r chwith wrth ddringo’r llwybr trwy’r coed i gopa’r graig.

3



Wedi i chi gael amser i fwynhau’r golygfeydd godidog, cerddwch yn eich blaen o amgylch y graig ac i lawr y llwybr cul yr ochr draw. Ewch yn ôl tuag at y giât ger yr hen ffordd.

4



I barhau â’r gylchdaith, trowch i’r dde gan ailymuno â’r hen ffordd. Gall fod yn wlyb iawn dan draed yma. Dilynwch yr hen ffordd am tua 1km i lawr i bentref Cutiau gan fynd heibio’r hen erddi Fictorianaidd ar y dde.

5



Pan ddowch at ffordd darmac, trowch i’r chwith ac i fyny’r allt i mewn i bentref bach Cutiau. O’ch blaen mae’r ffordd yn rhannu’n dri. Dilynwch y ffordd ganol gyda’r arwydd llwybr cyhoeddus ar y ffens. Mae’r llwybr yn fforchio wrth i chi nesáu at gapel. Dilynwch y llwybr i’r dde gan fynd trwy’r giât.

6




Wedi i chi fynd heibio’r capel, dilynwch y llwybr cyhoeddus ac ymhen dim fe ddowch at groesffordd o dan y ceblau trydan. Dilynwch y llwybr cul i’r chwith sy’n dringo’n serth drwy’r coed ac i fyny’r bryn. Gall fod yn wlyb iawn dan draed yma. Byddwch yn mynd trwy ddwy giât.

7



Mae’r llwybr yn ymuno â ffordd darmac wrth i chi basio hen dyddyn. Dilynwch y ffordd nes cyrraedd cyffordd.

8



Wrth y gyffordd, trowch i’r chwith a cherddwch ar hyd y ffordd am ryw 100 metr.

9



Wrth y troad i’r dde, dilynwch yr arwydd llwybr cyhoeddus i fyny’r bryn rhwng y waliau cerrig ar y dde i chi. Ewch drwy’r giât a dilynwch y llwybr tuag at gyfeiriad y mast radio gan fynd trwy giât arall.




Cadwch i'r dde wrth i'r llwybr fforchio gan gerdded o amgylch y mast radio ac ar hyd ymyl y wal gerrig. Ewch trwy'r giât ger y gamfa a dilynwch y llwybr aneglur sy'n dringo'n serth i Fwlch y Llan.





Pan gyrhaeddwch bendraw Bwlch y Llan ewch trwy'r giât a dilynwch y llwybr cul ymlaen. Ymhen dim, trowch i'r chwith gan ymuno â llwybr Taith Ardudwy.




Dilynwch y llwybr nes cyrraedd ochr draw i'r bwlch. Gall fod yn wlyb iawn o dan draed yma. Pan ddaw giât i'r golwg ar y chwith i chi, dilynwch y llwybr i'r chwith tuag ati. Ewch trwy'r giât a dilynwch y trac amlwg am gyfnod hyd nes cyrraedd fferm Gellfawr.




Pan gyrhaeddwch Gellfawr, cerddwch heibio blaen y tŷ a dilynwch y ffordd laswelltog. Ewch drwy'r giât a dilynwch y ffordd ac ymhen ychydig byddwch yn mynd heibio'r Garn ar eich dde.




Ewch drwy'r giât a dilynwch y ffordd yn ôl i'r maes parcio.